Cyfeirnod(au) y Papur

**6923/01**

# Edexcel GCE

## Busnes Cymhwysol

Uned 8: Datblygu Busnes

**Aseiniad a Osodir yn Allanol**

Mehefin 2009

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

**Gwybodaeth i Ymgeiswyr**

Gwnewch yn siwr eich bod chi'n darllen y ddogfen hon yn ofalus.
Mae'r Aseiniad hon a Osodir yn Allanol wedi cael ei diwygio ers cyfresi arholiad blaenorol.

Rhif Log yr Argraffwr
N36022A

N 3 6 0 2 2 A

W850/6923/57570 1/

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn unol â pholisi hawlfraint Edexcel Limited yn unig. ©2009 Edexcel Limited.

edexcel
advancing learning, changing lives

**Mae'r Asesiad hwn a Osodir yn Allanol yn ymwneud â chychwyn, rhedeg a datblygu'ch bunses eich hun.**

**Nid yw gweithredu o dan gytundeb masnachfraint na chymryd drosodd busnes sydd eisoes yn bodoli yn opsiynau sy'n agored i chi.**

**Senario**

Rydych chi bob amser wedi bod eisiau gweithio i chi'ch hun ac wedi breuddwydio am gychwyn, rhedeg a datblygu eich busnes eich hun. Yn ddiweddar, rydych wedi cael cymynrodd (*legacy*) o £10 000 gan un o'ch neiniau a theidiau ac rydych o'r farn ei bod hi'n amser gwireddu eich breuddwyd ac agor busnes bach, gan weithredu fel unig fasnachwr neu bartneriaeth.

Rydych yn sylweddoli na fydd y gymynrodd yn ddigonol i dalu holl gostau cychwyn y busnes, ac y bydd angen i chi gael cyllid ychwanegol o ffynonellau eraill. Nid yw cyfanswm eich cyfalaf cychwyn yn debygol o fod dros £50 000.

Rydych wedi penderfynu cynnal ymchwil a chynllunio manwl, ac yna rhoi'r wybodaeth at ei gilydd mewn cynllun datblygu busnes a'i gyflwyno mewn fformat proffesiynol. Dylai hyn ddangos yn glir bod eich syniad busnes yn fusnes a allai fod yn ddichonadwy (*viable*) sy'n deilwng o fuddsoddiad. Dylai eich cynllun datblygu busnes esbonio'ch syniad a'r costau cysylltiedig yn glir i ddarpar fuddsoddwyr.

**Mae'n rhaid i chi gynhyrchu'r dystiolaeth asesu ganlynol ar gyfer yr uned hon.**

Mae'n rhaid i chi greu cynllun datblygu busnes er mwyn argyhoeddi darpar fuddsoddwyr. Mae'n bwysig bod eich cynllun datblygu busnes yn dangos y canlynol yn glir:

**Y Syniad Busnes**

- dadansoddiad o ganlyniadau eich ymchwil cynradd ac eilaidd (dylech gynnwys data a chanfyddiadau ar ffurf Atodiad 1)
- y rhesymau dros eich dewis chi o fusnes
- y rhesymau dros wrthod syniadau busnes eraill
- nodau ac amcanion eich busnes
- y cymysgedd a'r strategaethau marchnata ar gyfer eich busnes
- unrhyw ddadansoddi a gwerthuso pellach ar y farchnad i gyfiawnhau ymhellach ddatblygiad eich busnes.

**(28 marc)**

**Materion Adnoddau ac Ansawdd**

- adnoddau ffisegol, ariannol a dynol a chostau cysylltiedig
- unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol, economaidd, technegol ac amgylcheddol perthnasol
- sut caiff y busnes ei redeg, gan ystyried y cynllunio a'r sicrhau ansawdd
- sut caiff eich busnes ei reoli.

**(14 marc)**

**Adnoddau Ariannol**

- ffynonellau cyllid
- cyllideb gychwyn
- rhagolwg llif arian ar gyfer blwyddyn un, gan gynnwys esboniad o fewnlifoedd ac all-lifoedd
- y fantolen agoriadol
- mantolenni cau amcanol ar gyfer blwyddyn un
- rhagolwg o elw a cholled ar gyfer blwyddyn un
- rhagolwg adennill costau (*break-even*)
- esboniad o'r newidiadau tebygol (cyfreithiol, economaidd, gwleidyddol, technegol ac amgylcheddol) dros y ddwy flynedd nesaf a'u heffaith ar gyllid y busnes.

**(27 marc)**

**Dichonoldeb a Gwerthuso**

- cydnabyddiaeth o unrhyw effeithiau tymhorol, cylchol neu effeithiau eraill a allai godi
- rhagamcaniad o sefyllfa'r busnes yn y ddwy flwyddyn ddilynol
- anawsterau amcangyfrif sefyllfaoedd yn y dyfodol trwy ystyried llif arian, proffidioldeb a hylifedd
- cyfrifiad o gymarebau allweddol, dadansoddi a gwerthuso dros dair blynedd
- casgliadau ac argymhellion wedi'u cyfiawnhau.

**(21 marc)**

**Cyfarwyddiadau ar gyfer cynnal yr asesiad**

1. Y senario a roddir yw'r **unig** gyfrwng ar gyfer asesu Uned 8: Datblygu Busnes.

2. Ar wahân i'r ddogfen hon **ni fydd unrhyw bapur arholiad** ar gyfer yr asesiad.

3. Cynhelir asesiad gan aseswyr y ganolfan, a bydd eu penderfyniadau yn amodol ar gael eu safoni gan safonwyr allanol Edexcel. Cynhelir yr holl waith safoni trwy anfon sampl o waith yr ymgeiswyr a fydd yn cael ei nodi ar ddogfennau cysylltiedig a anfonir i'r ganolfan ym mlwyddyn yr arholiad. Bydd hyn yn digwydd ar yr un pryd ag y caiff yr unedau portffolio eu safoni, yng nghyfres safoni'r haf.

4. Rhaid cynnal gwaith dan amodau goruchwyliaeth.

5. Rhaid i waith yr ymgeiswyr gael ei gwblhau a'i asesu gan y ganolfan erbyn **diwedd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno marciau i'w safoni**.

6. Dylai ymgeiswyr dreulio dim mwy na chyfanswm o 15 awr mewn sefyllfaoedd dan oruchwyliaeth yn cwblhau'r cynllun busnes.

7. Rhaid cofnodi marciau'r ymgeiswyr ar y ffurflenni OPTEMS priodol a'u dychwelyd i Edexcel erbyn **y terfyn amser ar gyfer cyflwyno marciau i'w safoni**.

8. Rhaid i dystiolaeth i'w hasesu yn erbyn Uned 8 gael ei llunio'n benodol i fodloni gofynion y senario.

9. **Dylai canolfannau nodi y caiff yr uned hon ei safoni yn yr haf yn unig, ac y gall marciau a gwaith ymgeiswyr gael eu cyflwyno bryd hynny'n unig.**

**Asesu Uned 8**

Bydd yr aseiniad a osodir yn allanol ar gyfer Uned 8 ar gael ar wefan Edexcel (www.edexcel.org.uk) o fis Mehefin 2008 ar gyfer yr arholiad ym mis Mehefin 2009. Ni fydd papur arholiad ar gyfer yr asesiad yn dilyn cyhoeddi'r ddogfen hon.

Rhaid i'r cynllun datblygu busnes gael ei wneud o dan amodau dan oruchwyliaeth sy'n cynnig ffordd effeithiol o wirio dilysrwydd gwaith cwrs. Diffinnir amodau dan oruchwyliaeth fel a ganlyn:

- Rhaif gwneud y gwaith yn yr ystafell ddosbarth a/neu wrth gyfrifiadur a rhaid i athro/athrawes busnes oruchwylio i sicrhau y gellir dilysu'r gwaith.
- Gall ymgeiswyr droi at ysgogiad y dasg, nodiadau ymchwil a geiriadur.
- Ni all ymgeiswyr droi at y Rhyngrwyd o dan unrhyw amgylchiadau wrth weithio mewn amodau dan oruchwyliaeth.
- Bydd ymgeiswyr yn gwybod tasg y gwaith cwrs cyn yr amodau dan oruchwyliaeth a gallant dreulio amser yn canfod cyfle busnes dilys wrth baratoi ar gyfer y dasg dan oruchwyliaeth.
- Nid oes cyfyngiadau ar ymchwil ffurfiannol a gynhelir cyn yr amodau dan oruchwyliaeth. Fodd bynnag, rhaid amlinellu graddau'r ymchwil rhagarweiniol ar y ffurflen 'Datganiad o Amodau Asesu' ar dudalen 7.
- Dylai'r cynllun datblygu busnes a grëir yn ystod yr amodau dan oruchwyliaeth hyn fod o ansawdd addas i'w gyflwyno i ddarparwr cyllid yn unol â'r Meini Prawf Asesu.
- Er na nodir isafswm oriau ar gyfer yr ymarfer hwn, rhagwelir y dylid rhoi o leiaf 10 awr i ymgeiswyr gwblhau'r aseiniad o dan amodau dan reolaeth.
- Ni ddylai ymgeiswyr dreulio mwy na chyfanswm o 15 awr yn cwblhau'r cynllun datblygu busnes.
- Gallai'r amodau dan oruchwyliaeth gael eu hymestyn dros nifer o ddyddiau neu wythnosau.
- Yn yr achos tebygol na chaiff y gwaith ei gwblhau mewn un sesiwn, rhaid i'r athro/athrawes ei storio'n ddiogel tan y sesiwn nesaf dan oruchwyliaeth.
- Rhaid cadw cofnod o ran pryd ac o dan ba amodau y cafodd y gwaith yn ffolder yr ymgeisydd ei gwblhau. Llenwch y ffurflen 'Datganiad o Amodau Asesu' ar dudalen 7 y ddogfen hon, y mae'n rhaid ei defnyddio at y diben hwn.
- Er mwyn asesu gwaith yn gywir a mesur graddau dealltwriaeth yr ymgeisydd o fusnes, mae'n ofynnol i Ganolfannau wneud datganiad ffurfiol o ddeunyddiau ffynhonnell a chymorth a ddefnyddiwyd gan gynnwys geiriaduron traddodiadol a geiriaduron ar-lein. Rhaid i Ganolfannau hefyd gadw copi o daflenni gwaith a ddyfeisiwyd gan y Ganolfan, tudalennau gwe a chopïau o dudalennau perthnasol o werslyfrau a ddefnyddiwyd. Rhaid i'r defnydd o'r deunydd hwn gael ei ddal ar log gwybodaeth neu ar y ffurflen 'Datganiad o Amodau Asesu'.
- Mae'n ofynnol i athrawon ac ymgeiswyr ddilysu mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r cynllun datblygu busnes ar flaen y daflen cofnodi marciau y dylid ei hamgáu gyda gwaith yr ymgeisydd.

## Uned 8 – Meini prawf Asesu Datblygu Busnes

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| (a)<br><br>**AO1, AO2, AO3, AO4** | Dewiswyd syniad busnes posibl, gan roi rhesymau sylfaenol dros ei ddewis a'i ddichonoldeb a chan amlinellu strategaethau marchnata/hyrwyddo a nodi gwybodaeth am gystadleuwyr.<br>**(1-14)** | Gwybodaeth gadarn am syniad busnes a gefnogir gan dystiolaeth o ddichonoldeb a strategaethau manwl gyda rhywfaint o gyfiawnhad o'r cynnig. Gwybodaeth gadarn am gystadleuwyr.<br>**(15-22)** | Syniadau cynhwysfawr a gwreiddiol gyda thystiolaeth a chynigion wedi'u cefnogi a'u cyfiawnhau yn llawn. Gwybodaeth gynhwysfawr a gwreiddiol am gystadleuwyr.<br>**(23-28)** | **28** |
| (b)<br><br>**AO1, AO2, AO3, AO4** | Ymdrinnir â gofynion o ran adnoddau a materion ansawdd ar lefel sylfaenol.<br>**(1-7)** | Cyflwynir adnoddau a materion ansawdd yn gadarn, gydag enghreifftiau perthnasol a chymhwyso da.<br>**(8-11)** | Cyflwynir adnoddau a materion ansawdd yn gynhwysfawr gyda thystiolaeth fanwl wedi'i chefnogi'n llawn.<br>**(12-14)** | **14** |
| (c)<br><br>**AO1, AO2, AO3, AO4** | Cynllun cyllid yn darparu gwybodaeth sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer ffynonellau, cyllidebau, llif arian, adennill costau a chyfrifon.<br>**(1-13)** | Cynllun cyllid manwl yn ymdrin â'r holl agweddau gofynnol gan ddangos annibyniaeth meddwl a dealltwriaeth glir.<br>**(14-20)** | Cynllun cyllid cynhwysfawr, wedi'i gyflwyno'n broffesiynol gyda chymhwyso a dadansoddi cywir o ragolygon gan ddangos gwreiddioldeb, annibyniaeth meddwl a dealltwriaeth glir.<br>**(21-27)** | **27** |
| (d)<br><br>**AO1, AO2, AO3, AO4** | Gwerthusiad syml o sefyllfa'r busnes ar ddiwedd y flwyddyn ac wedi'u rhagamcanu ar gyfer tair blynedd yn y dyfodol.<br>**(1-10)** | Dadansoddiad a gwerthusiad cadarn o'r sefyllfa bresennol ac wedi'u rhagamcanu gan ddangos annibyniaeth meddwl.<br>**(11-16)** | Dadansoddiad a gwerthusiad cynhwysfawr o'r sefyllfa bresennol ac wedi'u rhagamcanu gydag argymhellion manwl a gwreiddiol a chasgliadau wedi'u cyfiawnhau.<br>**(17-21)** | **21** |
| | | | **Cyfanswm y marciau** | **90** |

# Edexcel GCE mewn Busnes Cymhwysol – Taflen Cofnodi Marciau Uned 8

| | |
|---|---|
| Rhif y Ganolfan: | Enw'r Ganolfan: |
| Rhif yr ymgeisydd: | Enw'r ymgeisydd: |

| Uned 8: Datblygu Busnes | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tystiolaeth asesu | Anodiad a rhif y dudalen | Band Marciau | | | Marc y Ganolfan | At ddefnydd Edexcel |
| | | 1 | 2 | 3 | | |
| (a) | | 0-14 | 15-22 | 23-28 | | |
| (b) | | 0-7 | 8-11 | 12-14 | | |
| (c) | | 0-13 | 14-20 | 21-27 | | |
| (d) | | 0-10 | 11-16 | 17-21 | | |
| | | Cyfanswm terfynol | | | | |

Datganiad Dilysrwydd: Rwy'n datgan bod y gwaith a gyflwynir i'w asesu wedi cael ei gyflawni heb gymorth heblaw am yr hyn sy'n dderbyniol yn ôl y cynllun asesu (oni nodir ar gefn y daflen cofnodi marciau hon).

Llofnod (ymgeisydd) ...................................... Dyddiad ................. Llofnod (athro/athrawes) ..................................... Dyddiad ....................

Datganiad o Amodau Asesu

## Edexcel GCE mewn Busnes Cymhwysol

### Uned 8: Datblygu Busnes

Rhif y Ganolfan: .....................................    Rhif yr ymgeisydd: ....................

Enw'r Ganolfan: .....................................    Enw'r ymgeisydd: ......................

Amser a dreuliwyd o dan amodau dan oruchwyliaeth: [ ]

Gwaith a Gwblhawyd wrth baratoi ar gyfer yr Asesiad dan Oruchwyliaeth:

Gwaith a Gwblhawyd o dan Amodau dan Oruchwyliaeth:

Rwy'n datgan bod y gwaith a gyflwynir i'w asesu a'r wybodaeth uchod yn gywir ac yn dderbyniol yn ôl y cynllun asesu.

Llofnod yr Ymgeisydd: ................................    Llofnod yr Athro/Athrawes: ...........................

Enw'r Athro/Athrawes: ...........................

**Fformat Enghreifftiol ar gyfer y Cynllun Datblygu Busnes**

**Arweiniad i ymgeiswyr**

Dyma fformat enghreifftiol ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Datblygu Busnes.

Mae gan ymgeiswyr yr hawl i gyflwyno eu gwaith mewn fformatau eraill os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

(Tudalen Deitl)

ENW'R YMGEISYDD:

CWRS: **GCE BUSNES CYMHWYSOL**

TEITL YR UNED: **DATBLYGU BUSNES**

RHIF YR UNED: **6923**

CYNLLUN DATBLYGU BUSNES AR GYFER:

***(Enw'r Busnes Arfaethedig)***

*(Tudalen Gynnwys)*

Cynnwys

**1 Crynodeb Gweithredol**

**2 Y Syniad Busnes**

**3 Materion Adnoddau ac Ansawdd**

**4 Adnoddau Ariannol**

**5 Dichonoldeb a Gwerthuso**

**6 Atodiadau**

**i. Ymchwil Cynradd ac Eilaidd**
**ii. Atodiadau eraill fel bo'r angen**